# Ymgynghoriad: Canllawiau Datganiad Polisi Rhaglenni a Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Drafft

Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 11 Chwefror 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 25 Mawrth 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Cefndir ... 5
3. Canllawiau newydd arfaethedig ... 8


## Atodiad


A1. Fframwaith cyfreithiol: dyletsyddau perthnasol ... 17

A2. Asesu effaith ein cynigion ... 19

A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ... 21

A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ... 24

A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ... 25

# 1. Trosolwg

1.1 Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ('PSBs') le unigryw yng nghymdeithas y DU. Mae eu rôl yn cynnwys darparu amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU ac sydd ar gael am ddim i bawb.

1.2 Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n sail i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus dros y ddau ddegawd diwethaf wedi'i nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf'). Er bod y dull gweithredu hwnnw, sy'n canolbwyntio ar sianeli teledu byw, wedi gwasanaethu cynulleidfaoedd yn dda ers cenhedlaeth, mae mewn perygl o fod yn anghydnaws â disgwyliadau gwylwyr yn y DU sy'n disgwyl mwy a mwy o reolaeth o ran sut maen nhw'n cael gafael ar newyddion, gwybodaeth ac adloniant nag y mae gwasanaeth teledu darlledu wedi'i amserlennu yn gallu ei gynnig ar ei ben ei hun.

1.3 Mae Deddf Cyfryngau 2024 ('Deddf Cyfryngau') wedi diwygio'r fframwaith hwn, gan ddiweddaru'r cylch gwaith a'r gofynion gwasanaeth cyhoeddus ar PSBs. Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn rhoi mwy o hyblygrwydd a rhyddid i'r PSBs yn y gwasanaethau y gallant eu defnyddio i gyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd sy'n gwasanaethu buddiannau cynulleidfaoedd, gan gynnwys am y tro cyntaf wasanaethau ar-alw a gwasanaethau ar-lein eraill. Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd parhaus, mae'r newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf Cyfryngau yn mynnu bod PSBs yn nodi'r cyfraniad y bydd pob gwasanaeth y maent yn bwriadu ei ddefnyddio yn ei wneud i gyflawni eu rhwymedigaethau.

1.4 Un o effeithiau'r newidiadau hyn oedd ehangu'r rôl a chwaraeir gan y Datganiadau Polisi Rhaglenni ('SoPPs') lle mae trwyddedeion Channel 3, Channel 4 Television Corporation ('C4C') a Channel 5 (gyda'i gilydd y 'PSBs trwyddedig') yn nodi sut maen nhw'n bwriadu cyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddio. Yn benodol, bydd SoPPs nawr yn chwarae rhan allweddol yn y broses a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau i ganiatáu i PSBs sicrhau bod eu cynnwys ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch ar amrywiaeth o lwyfannau teledu cysylltiedig.[1]

1.5 Mae'r newidiadau hyn yn mynnu ein bod yn diweddaru ein canllawiau i PSBs ynghylch yr amrywiaeth o wybodaeth maent yn ei darparu yn eu SoPPs. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn nodi manylion ynghylch sut rydym yn bwriadu gwneud hynny.

1.6 Mae gweddill y ddogfen ymgynghori hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

a) Mae Adran 2 yn rhoi cefndir ac yn nodi sut mae'r Ddeddf Cyfryngau wedi newid y cylch gwaith a'r gofynion ar PSBs;
b) Mae Adran 3 yn egluro sut rydym wedi mynd i'r afael â'n canllawiau drafft a'r rhesymeg dros ein cynigion;
c) Mae Atodiad 1 yn nodi ein dyletswyddau cyfreithiol perthnasol;
d) Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein hasesiad o effaith ein cynigion; ac
e) Mae Atodiadau 3-5 yn darparu manylion ar sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

1.7 Mae'r Canllawiau drafft ar gael yma.

[1] Ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn, rydym wedi cyhoeddi ein proposals ar wahân i roi'r broses ddynodi ar waith ar gyfer gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd y PSBs.

1.8 Rydym yn gwahodd sylwadau gan randdeiliaid ar ein hymgynghoriad erbyn 25 Mawrth 2025. Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi datganiad a’n Canllawiau terfynol yn ystod Haf 2025.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

O ystyried y newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau, rhaid i ni ddiweddaru ein canllawiau ar gyfer PSBs trwyddedig ynghylch paratoi eu Datganiadau Polisi Rhaglenni (‘SoPPs’) – y ddogfen y byddant yn ei defnyddio i egluro sut byddant yn cyflawni eu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a’r gwasanaethau clyweledol y byddant yn eu defnyddio i wneud hynny. Mae ein canllawiau arfaethedig yn ystyried yr hyblygrwydd a'r rhyddid ychwanegol sydd gan y PSBs nawr ac yn diweddaru’r wybodaeth y gallai SoPP ei chynnwys i adlewyrchu’r newidiadau hyn.

Mae ein canllawiau arfaethedig hefyd yn ymdrin â sut gall C4C gyflawni ei ofynion SoPP a Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau (‘SMCP’) drwy ddatganiadau cyfun. Bydd y canllawiau newydd yn disodli ein canllawiau presennol ar SoPP, a’r canllawiau SoPP a SMCP cyfun ar gyfer C4C.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae’r canllawiau a gynigir, yr rydym yn ymgynghori yn eu cylch, ar gael yma, ac mae'n rhesymeg wedi’i nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

## Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn diweddaru'r cylchoedd gwaith ar gyfer PSBs ac yn cynnwys gwasanaethau ar-lein am y tro cyntaf

2.1 Mae'r degawd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid radical yn y ffordd rydym yn cael gafael ar newyddion, gwybodaeth ac adloniant. Er bod gwasanaethau teledu sy'n cael eu darlledu'n fyw yn dal i gael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n eang, mae'r lefel ehangach o ddewis sy'n cael ei galluogi gan newid technolegol ac sy'n cael ei chroesawu gan gynulleidfaoedd wedi digwydd law yn llaw â'r gostyngiad mewn gwylio a gwrando llinol.[2]

2.2 Ar ôl sawl degawd lle'r oedd eu gwasanaethau wedi'u strwythuro o amgylch dosbarthiad llinol, mae darlledwyr, yn cynnwys PSBs y DU[3], wedi bod yn addasu i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd heddiw. Mae PSBs wedi datblygu apiau teledu sy'n cynnig cynnwys gwreiddiol, yn ogystal â rhywfaint o raglenni unigryw, y gellir cael gafael arnynt ar amrywiaeth o ddyfeisiau gan gynnwys ffonau clyfar a dyfeisiau tabled, gliniaduron a setiau teledu clyfar.

2.3 Fodd bynnag, er bod arferion cynulleidfaoedd wedi newid, a bod addasiadau wedi cael eu gwneud i ddarpariaeth darlledwyr, nid yw'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer PSBs wedi newid. Mae'r rheolau a oedd yn bodoli tan eleni i raddau helaeth yn adlewyrchu patrymau technoleg a defnydd y 1990au a dechrau'r 2000au. Ac eithrio'r BBC, nid yw apiau teledu'r PSBs wedi cael eu hystyried yn rhan o ddarpariaeth cynnwys gwasanaeth cyhoeddus PSBs hyd yma.

2.4 Am y tro cyntaf, bydd PSBs trwyddedig yn gallu defnyddio sianeli teledu portffolio, apiau teledu a gwasanaethau ar-lein eraill yn ogystal â'u prif sianeli teledu i fodloni eu gofynion.

2.5 Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'n rhaglen waith i weithredu'r Ddeddf Cyfryngau.[4] Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn nodi sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r newidiadau mae'r Ddeddf Cyfryngau yn eu gwneud mewn perthynas â SoPPs a newidiadau canlyniadol i'n canllawiau ar gyfer SMCP C4C.

## Gweithredu'r drefn newydd

2.6 Yn yr adran hon rydym yn crynhoi'r prif newidiadau a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau i'r fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â SoPPs. Yn ein guidance drafft rydym yn trafod y fframwaith newydd yn fanylach.[5]

2.7 Mae gan y PSBs trwyddedig gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol[6] ('cylch gwaith unigol'), ac, ar y cyd â'r BBC ac S4C, rhaid iddynt gyflawni cylch gwaith gwasanaeth

---

[2] Ofcom, 2024, Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Cylch gorchwyl; ac Ofcom, 2024, Cyfryngau'r Genedl y DU 2024
[3] Y PSBs yw'r BBC, trwyddedeion Channel 3, C4C, trwyddedai Channel 5 ac S4C.
[4] I gael amserlen fanwl o'n proses weithredu, gweler: Ofcom, 2024, Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau.
[5] Gweler paragraff 2.3 ac Atodiadau 1 a 2 ein canllawiau drafft.
[6] Adran 265(2)-(3) y Ddeddf.

cyhoeddus teledu'r DU gyda'i gilydd[7] ('cylch gwaith cyffredinol y PSBs'). Mae'r Ddeddf Cyfryngau wedi newid cylchoedd gwaith unigol y PSBs trwyddedig i gynnwys gofyniad i wneud '*cyfraniad digonol*' at gylch gwaith cyffredinol y PSBs.[8]

2.8 Roedd Deddf y Cyfryngau hefyd wedi diweddaru cylch gwaith cyffredinol y PSBs i'w wneud yn llai rhagnodol, gyda'r nod o roi mwy o hyblygrwydd i PSBs o ran sut maent yn dewis cyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni buddiannau cynulleidfaoedd.[9]

2.9 Fel y nodwyd, mae'r drefn newydd yn caniatáu i'r PSBs trwyddedig ddefnyddio sianeli teledu a gwasanaethau ar-lein eraill i gyflawni eu cylchoedd gwaith yn ogystal â'u prif sianel ddarlledu.

2.10 Ar wahân i'r gofynion cylch gwaith sydd wedi'u diweddaru, mae'r PSBs trwyddedig ac S4C yn dal i fod yn rhwym wrth ofynion cwota rhaglenni, y byddant hefyd yn gallu eu bodloni drwy apiau teledu dynodedig yn ogystal â'u prif sianel ddarlledu. Byddwn yn nodi ein cynigion ar gweithredu'r newidiadau i gwotâu o dan y Ddeddf Cyfryngau yn ystod gwanwyn 2025.

## Datganiadau Polisi Rhaglenni

2.11 Mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig gyhoeddi SoPPs blynyddol[10], gan ystyried canllawiau Ofcom. Mae'n rhaid i S4C hefyd baratoi SoPP bob blwyddyn a rhoi sylw i ganllawiau Ofcom wrth wneud hynny.[11] Fodd bynnag, yn wahanol i'r PSBs trwyddedig, nid oes gan Ofcom rôl o ran gorfodi cylch gwaith unigol S4C. Mae'r rôl honno'n eiddo i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad S4C a sut mae'n cyflawni ei gylch gwaith unigol.[12] Mae gan y BBC ofynion cynllunio ac adrodd blynyddol ar wahân o dan Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC, ac nid oes yn rhaid iddo gynhyrchu SoPP.

2.12 Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig baratoi a chyhoeddi SoPP blynyddol sy'n nodi cynigion ar gyfer sut bydd eu prif sianeli darlledu yn cyflawni eu cylchoedd gwaith a'u rhwymedigaethau rheoleiddio, ac asesu eu perfformiad wrth wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Cyfryngau wedi diweddaru hyn fel bod yn rhaid i SoPP hefyd:

a) ddatgan a fydd dau neu fwy o wasanaethau clyweledol perthnasol (y cyfeiriwn atynt fel gwasanaethau perthnasol) gan gynnwys y brif sianel ddarlledu, yn cael eu defnyddio i gyfrannu at gyflawni cylch gwaith y PSB; ac
b) os felly, nodi, mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau perthnasol, eu cyfraniad arfaethedig at gyflawni cylch gwaith y PSB.

2.13 O ystyried bod y Ddeddf Cyfryngau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r PSBs trwyddedig o ran cyflawni eu cylch gwaith, mae i SoPPs bwysigrwydd newydd fel ffordd i PSBs goladu eu cynlluniau a'u perfformiad ar draws eu holl wasanaethau perthnasol.

## Rôl SoPPs yn y drefn argaeledd ac amlygrwydd

---

[7] Adran 264(4)-(6) y Ddeddf.
[8] Adran 265(2) - (3) y Ddeddf.
[9] Adran 264(4) y Ddeddf.
[10] Adran 266 y Ddeddf.
[11] Paragraff 4, Rhan 2 o Atodlen 12 y Ddeddf.
[12] Adran 339 y Ddeddf.

2.14 Ar hyn o bryd, mae'r prif sianeli teledu PSB ar gael ac yn cael amlygrwydd ar amserlenni rhaglenni electronig. Bydd y Ddeddf Cyfryngau yn galluogi'r PSBs i sicrhau argaeledd ac amlygrwydd i'w apiau teledu ar setiau teledu cysylltiedig. Os bydd PSB trwyddedig, S4C, neu rywun sy'n gysylltiedig â hwy yn dymuno elwa o'r drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd ar gyfer eu ap teledu – a elwir yn ffurfiol yn 'wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd' ('IPS') o dan y Ddeddf Cyfryngau – rhaid iddynt wneud cais i Ofcom am eu IPS. I wneud dynodiad, rhaid i Ofcom fod yn fodlon bod amodau penodol yn cael eu bodloni ac, wrth wneud yr asesiad hwnnw, rhaid i ni ystyried y cynigion yn SoPP y PSB, yn cynnwys y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith y PSB.

2.15 Y ddau amod dynodi[13] – yr ydym yn cyfeirio atynt fel Amod 1 ac Amod 2 – y mae'n rhaid eu bodloni yw bod yr IPS yn gwneud cyfraniad sylweddol, neu'n gallu gwneud cyfraniad sylweddol, at gylch gwaith unigol y PSB perthnasol, a bod rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr IPS at y diben hwn (y cyfeirir atynt fel 'cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus' neu 'gynnwys PSR'[14]) yn '*hawdd eu canfod*' ac yn cael eu '*hyrwyddo*' gan yr IPS. Mae ein canllawiau drafft ar SoPPs yn nodi'r wybodaeth rydym yn cynnig y gellid ei chynnwys mewn SoPP a gynhyrchir gan un o'r PSBs trwyddedig neu S4C at ddibenion ein penderfyniad ynghylch a yw Amod 1 ac Amod 2 yn cael eu bodloni. Ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn, rydym wedi cyhoeddi ar wahân ein Draft Statement of methods for IPS designation sy'n nodi'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid dynodi IPS.

## Datganiadau Polisi Cynnwys Cyfryngau C4C

2.16 Yn ogystal â'i ofynion cylch gwaith, rhaid i C4C gyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau fel y nodir yn y Ddeddf.[15] Mae'n ofynnol i C4C adrodd ar y modd y mae'n cyflawni'r dyletswyddau hyn drwy Gynllun Rheoli Risg Integredig blynyddol, y mae'n rhaid iddo ei baratoi ar yr un pryd â'i SoPP. Wrth baratoi'r SMCP, rhaid i C4C ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Ofcom ac ymgynghori ag Ofcom hefyd. Ni chafodd y dyletswyddau cynnwys cyfryngau a gofynion adrodd SMCP eu diwygio gan y Ddeddf Cyfryngau. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y bydd y canllawiau SoPP newydd yn cynnwys sut y gall C4C gyflawni ei ofynion SMCP[16], a disodli'r canllawiau SoPP a SMCP cyfun presennol ar gyfer C4C.

## Rôl Ofcom

2.17 Yn ein hadolygiadau o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ('PSM'), rydym yn ystyried sut mae PSBs wedi cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU ac wedi cyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus teledu'r DU, ac wrth wneud hynny mae'n rhaid i ni ystyried SoPPs.[17] Wrth lunio ein canllawiau drafft, rydym wedi gweithredu yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn Atodiad 1, gan gynnwys ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 y Ddeddf. Wrth i ni weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cyfryngau drwy ddiweddaru ein canllawiau, rydym hefyd yn ystyried sut rydym yn monitro SoPPs yn barhaus.

[13] Nodir y ddau amod dynodi yn Adrannau 362AA(3) a (4) y Ddeddf. Yn ogystal â'r amodau hyn, rhaid i Ofcom hefyd ystyried ei bod yn briodol dynodi'r IPS (Adran 362AA(2)(b) y Ddeddf).
[14] Adran 362AA(12) y Ddeddf.
[15] Adran 198A y Ddeddf.
[16] Fel yr eglurir ymhellach yn Adran 3.33 isod.
[17] Rhaid defnyddio datganiadau cyfun C4C hefyd i hysbysu ein hadolygiad o ddyletswyddau cynnwys cyfryngau C4C, sy'n digwydd ar yr un pryd â'n hadolygiadau PSM.

# 3. Canllawiau newydd arfaethedig

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer SoPPs, fel y'i diweddarwyd gan y Ddeddf Cyfryngau, yn cael ei grynhoi yn Atodiad 1 i'r canllawiau drafft. Mae ein cynigion yn adlewyrchu newidiadau i gylch gwaith unigol y PSBs trwyddedig, a chylch gwaith cyffredinol y PSBs, a byddant yn berthnasol i'r holl PSBs trwyddedig.

3.2 Yn gyffredinol, nid yw'r rolau y mae SoPPs yn eu chwarae wedi newid yn dilyn y Ddeddf Cyfryngau; mae dwy ran o hyd i SoPPs. Mae rhan gyntaf y SoPP yn edrych tua'r dyfodol ac mae'n mynnu bod y PSB trwyddedig yn nodi ei bolisi rhaglenni ar gyfer y flwyddyn ganlynol bob blwyddyn. Cyfeiriwn at hyn fel y 'Cynllun SoPP'. Ail ran y SoPP yw adolygiad o berfformiad y PSB trwyddedig wrth gyflawni'r cynigion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun SoPP ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Cyfeiriwn at hyn fel yr 'Adolygiad SoPP'. O dan y drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd, byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud â dynodi apiau teledu PSBs i alluogi (a chynnal) dynodiad eu apiau teledu.

3.3 Wrth fynd i'r afael â'n dadansoddiad, rydym wedi ystyried y math o wybodaeth sy'n debygol o gael ei chynnwys mewn SoPP er mwyn darparu lefel briodol o dryloywder a'n galluogi i gyflawni ein rôl yn effeithiol, gan gynnwys sut bydd SoPPs yn cyfrannu at ein gwaith monitro blynyddol ac adolygiadau PSM. Wrth nodi'r wybodaeth y dylai ac y gallai SoPP ei chynnwys, rydym yn cydnabod y gall PSBs trwyddedig ddefnyddio a chroesgyfeirio gwybodaeth sydd eisoes wedi'i darparu at ddibenion eraill, er mwyn osgoi dyblygu diangen. Gall PSBs ddarparu mathau eraill o wybodaeth na'r hyn a nodwyd gennym, yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael iddynt. Wrth baratoi ein canllawiau, rydym hefyd wedi ystyried gwahanol feintiau a chylchoedd gwaith y PSBs trwyddedig.

3.4 Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein ffordd o feddwl ar y materion hyn, rydym wedi cwrdd â phob un o'r PSBs trwyddedig ac S4C i gasglu eu safbwyntiau cychwynnol. Yn gyffredinol, mae'r rhanddeiliaid hyn yn cydnabod rôl SoPPs ond maent yn awyddus i osgoi adroddiadau ychwanegol helaeth. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ein cynigion gan PSBs yn ogystal â rhanddeiliaid eraill â buddiant wrth i ni fwrw ymlaen â'n syniadau.

3.5 Yng ngweddill yr adran hon, rydym yn nodi manylion ein cynigion, gan gynnwys y prif newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'n canllawiau mewn perthynas â SoPPs.[18] Yna, rydym yn nodi manylion ein canllawiau arfaethedig ar ddatganiadau cyfun C4C.

[18] O ystyried natur sylweddol y newidiadau i gylch gwaith cyffredinol y PSBs a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau, gan gynnwys yr amrywiaeth o wasanaethau y gellir cyflawni'r cylch gwaith drwyddynt erbyn hyn, mae ein canllawiau drafft wedi'u nodi fel dogfen 'newydd' (yn hytrach na newidiadau i'r canllawiau presennol).

## Canllawiau ar Gynlluniau SoPP

3.6 Y Cynllun SoPP yw pan fydd PSB trwyddedig yn nodi ei gynigion ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar gyfer cyflawni ei gylch gwaith, gan gynnwys sut bydd yn gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs, a'i rwymedigaethau rheoleiddiol eraill.

3.7 O ganlyniad i newidiadau yn y Ddeddf Cyfryngau, rhaid i'r Cynllun SoPP nodi pob gwasanaeth perthnasol y mae'r PSB trwyddedig yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith ac egluro'r cyfraniad y mae'n rhaid i bob gwasanaeth ei wneud. Yn ein canllawiau drafft, rydym yn cynnig y dylai'r PSB trwyddedig ddarparu cyd-destun ar gyfer y wybodaeth hon drwy nodi ei nodau cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar draws ei holl wasanaethau perthnasol, sut bydd yn cyflawni ei gylch gwaith unigol a sut bydd yn gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs.

3.8 Rydym yn nodi yn y canllawiau drafft[19] y ffactorau rydym yn eu cynnig sy'n berthnasol i asesiad ynghylch a yw'r PSB trwyddedig yn gwneud *cyfraniad digonol*[20] at gylch gwaith cyffredinol y PSBs. Rydym yn cydnabod y gallai'r hyn a allai fod yn ddigonol ar gyfer un PSB fod yn wahanol i un arall, oherwydd gwahaniaethau yn eu cylchoedd gwaith unigol yn ogystal â'u maint a'u cynulleidfaoedd arfaethedig.

3.9 Rydym hefyd yn cynnig y gallai Cynllun SoPP gynnwys esboniad o unrhyw dargedau cynulleidfa mae'r PSB yn ceisio eu cyrraedd yn gyffredinol, fel grwpiau demograffig penodol, a sut bydd eu dewis o wasanaethau perthnasol yn helpu PSBs i gyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd.[21]

### Sut bydd gwasanaethau perthnasol yn cyfrannu at y cylch gwaith

3.10 Yn ein canllawiau drafft rydym yn nodi gwybodaeth y dylai ac y gallai Cynllun SoPP ei chynnwys mewn perthynas â phob gwasanaeth perthnasol y mae'r PSB trwyddedig yn bwriadu ei ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys y polisi rhaglenni ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol, er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau.[22] Er mwyn osgoi dyblygu diangen, rydym yn cydnabod yn ein canllawiau drafft, lle mae rhaglenni'n cael eu rhannu rhwng gwasanaethau, nad oes angen i'r Cynllun SoPP roi manylion yr un polisi rhaglenni bob tro.

3.11 Rydym yn cynnig y caiff y PSB trwyddedig ddiffinio "*cymeriad*" pob un o'i wasanaethau perthnasol yn y SoPP.[23] Mae cymeriad gwasanaeth yn berthnasol wrth benderfynu a yw SoPP yn cynnwys cynigion ar gyfer "*newid sylweddol*" y mae'n rhaid i'r PSB ymgynghori ag Ofcom yn ei gylch.[24] Felly, mae ein cynnig yn caniatáu mwy o dryloywder wrth benderfynu a

[19] 2.13(b) ein canllawiau drafft.
[20] Mae cylch gwaith unigol pob un o'r PSBs trwyddedig yn mynnu bod (i) y cynnwys y maent yn ei ddarparu i gyd yn gallu cael ei ystyried wrth benderfynu i ba raddau y mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs wedi cael ei gyflawni a (ii) gyda'i gilydd, yn gyfraniad digonol at gyflawni'r cylch gwaith cyffredinol hwnnw. Gweler adran 265 y Ddeddf.
[21] 2.14 ein canllawiau drafft.
[22] Mae Adran 266(2A)(b) Deddf Cyfathrebiadau 2003, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfryngau 2024, yn mynnu bod yn rhaid i SoPP adrodd ar y cyfraniad arfaethedig y bydd pob gwasanaeth clyweledol perthnasol yn ei wneud i gyflawni'r cylch gwaith, nid dim ond allbwn y PSB yn ei gyfanrwydd.
[23] 2.16 ein canllawiau drafft.
[24] Adran 267 y Ddeddf.

yw gwasanaeth wedi newid neu'n newid dros amser, er enghraifft o ran y cynulleidfaoedd mae'n ceisio eu gwasanaethu neu'r amrywiaeth o gynnwys mae'n ei ddarparu.

3.12 Mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn nodi'r gwahanol ofynion y mae'n rhaid i'r PSBs eu cyflawni ar y cyd. Mae ein canllawiau drafft yn trafod pob un o'r rhain, a'r wybodaeth y dylai ac y gallai'r PSB trwyddedig ei chynnwys yn ei Gynllun SoPP mewn perthynas â phob un, gan gynnwys genres y rhaglenni sy'n berthnasol i bob maes. Nid yw'n ofynnol i PSBs na'u gwasanaethau perthnasol gyfrannu at bob un o ofynion cylch gwaith cyffredinol y PSBs. Felly, er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i PSBs trwyddedig wrth baratoi eu Cynlluniau SoPP, rydym yn cynnig[25] bod y PSBs ond yn cwmpasu'r gofynion cylch gwaith sy'n berthnasol i'w gynigion rhaglennu ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol.

3.13 Rydym wedi cynnig y math o wybodaeth y gall PSBs trwyddedig ei defnyddio i osod targedau meintiol ar wahân. Bydd cynnwys gwybodaeth briodol yn galluogi PSBs, a ninnau, i farnu perfformiad eu cylch gwaith, a darparu atebolrwydd.

3.14 Yn ein canllawiau drafft, rydym yn nodi gofynion cylch gwaith cyffredinol y PSBs a'r wybodaeth y dylai ac y gallai PSBs trwyddedig ei chynnwys yn eu Cynlluniau SoPP mewn perthynas â nhw. Yn fyr, rydym yn trafod y rhain yn eu tro isod:

a) Diwallu anghenion cynifer o gynulleidfaoedd â phosibl[26];
b) Argaeledd[27];
c) Hygyrchedd[28];
    i) Mae hyn yn cynnwys canllawiau i'r PSB trwyddedig am y wybodaeth y gall ei chynnwys am y mesurau sydd ganddo ar waith ar gyfer cynulleidfaoedd sydd ag anghenion mynediad, gan gynnwys darparu rhaglenni ag isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.
    ii) Rydym hefyd yn cyfeirio at ein Canllawiau ar Ddarparu Gwasanaethau Teledu a Mynediad Ar-alw, a allai fod yn berthnasol i rai gwasanaethau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun SoPP.
d) Newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr ac awdurdodol[29];
    i) Rydym yn cynnig y dylai trwyddedeion Channel 3 nodi manylion ynghylch sut maent yn bwriadu cyflawni eu rhwymedigaethau ychwanegol mewn perthynas â darparwr newyddion a benodir yn yr adran hon.[30]
e) Gwybodaeth, addysg ac adloniant[31];
    i) Rydym yn cynnig, mewn perthynas â'r gofyniad cylch gwaith hwn, y gallai PSBs nodi polisïau rhaglenni sy'n ymwneud â genres perthnasol, fel rhaglenni ffeithiol, addysgol, adloniant, comedi a drama, a ffilmiau.
f) Rhaglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a diwylliannau ledled y DU[32];

[25] 2.18 ein canllawiau drafft.
[26] 2.19-20 ein canllawiau drafft.
[27] 2.21-22 ein canllawiau drafft.
[28] 2.23-26 ein canllawiau drafft.
[29] 2.27-29 ein canllawiau drafft.
[30] 2.30 ein canllawiau drafft.
[31] 2.31-32 ein canllawiau drafft.
[32] 2.33-34 ein canllawiau drafft.

i) Rydym yn cynnig y gallai ‘gwahanol gymunedau’ gynnwys amrywiaeth o ran ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd a/neu gefndir economaidd-gymdeithasol yng nghymunedau’r DU, a gwledydd a rhanbarthau’r DU.
ii) Er mwyn rhoi eglurder i PSBs ynghylch yr hyn y mae ‘buddiannau diwylliannol’ yn ei olygu, rydym wedi darparu rhestr a awgrymir o genres rhaglenni perthnasol, fel chwaraeon, cerddoriaeth, celfyddydau, a chrefydd a moeseg.

g) Ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol cydnabyddedig[33];
h) Rhaglenni addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc[34];

i) Rydym yn cynnig is-genres rhaglenni perthnasol i ofyniad cylch gwaith cyffredinol newydd y PSBs ar gyfer rhaglenni addysgol plant a phobl ifanc.
ii) Mae’r adran hon o’r canllawiau hefyd yn cynnwys cyfeiriad at bwerau Ofcom i osod meini prawf ar gyfer rhaglenni plant PSBs, a ddylai gael eu hystyried gan PSBs wrth ddatblygu eu polisïau rhaglenni, er mwyn sicrhau bod PSBs yn ystyried pob rhan o rôl reoleiddio Ofcom yn y maes hwn.

i) Amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol, gwreiddiol ac a ‘Gynhyrchwyd y tu Allan i Lundain’.[35]

i) Mae ein canllawiau drafft yn cyfeirio at y gofynion cwota cynhyrchu ac yn egluro sut maen nhw’n gysylltiedig ond ar wahân i’r gofyniad cylch gwaith hwn.
ii) Rydym yn cynnig[36] y dylai C4C nodi gwybodaeth ychwanegol sy’n ymwneud â’i ddull o gomisiynu rhaglenni y tu allan i Loegr.

## Dynodiad IPS

3.15 Er mwyn cael a chadw dynodiad at ddibenion argaeledd ac amlygrwydd ar setiau teledu cysylltiedig, bydd yn rhaid i IPS sy’n cael ei ddefnyddio gan PSB i gyflawni ei gylch gwaith fodloni dau amod dynodi sydd wedi’u nodi yn y Ddeddf.[37] Fel y disgrifir ym mharagraff 2.15 uchod, y cyntaf o’r amodau hyn – Amod 1 – yw bod yr IPS yn gwneud neu’n gallu gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB. Yr ail amod – Amod 2 – yw bod cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi’i gynnwys yn yr IPS yn hawdd i’w ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS.

3.16 Rydym yn disgwyl y bydd y PSB trwyddedig, fel gwasanaeth perthnasol, yn darparu gwybodaeth yn ei Gynllun SoPP ynghylch sut bydd yr IPS yn cyfrannu at gyflawni ei gylch gwaith, o ran y cynnwys y bydd yn ei ddarparu a’r cynulleidfaoedd y bydd yn eu cyrraedd. Er hwylustod a thryloywder, rydym yn awgrymu efallai y bydd y PSB trwyddedig yn dymuno ychwanegu at wybodaeth sy’n berthnasol i’n penderfyniad ynghylch a yw Amod 1 ac Amod 2 wedi’u bodloni yn adran IPS eu Cynllun SoPP. Felly, mae ein canllawiau drafft[38] yn cynnwys disgrifiad o’r wybodaeth y gellid ei darparu am IPS mewn Cynlluniau SoPP, at ddibenion ein penderfyniad ynghylch a yw Amod 1 ac Amod 2 yn cael eu bodloni gan yr IPS.

[33] 2.35-36 ein canllawiau drafft.
[34] 2.37-38 ein canllawiau drafft.
[35] 2.39-41 ein canllawiau drafft.
[36] 2.42 y canllawiau drafft.
[37] Adran 362AA(2)(a) y Ddeddf. Yn ogystal â’r amodau hyn, rhaid i Ofcom hefyd ystyried ei bod yn briodol dynodi’r IPS (Adran 362AA(2)(b) y Ddeddf).
[38] 2.43-8 ein canllawiau drafft.

## Newidiadau sylweddol

3.17 Rhaid i'r PSB trwyddedig ymgynghori ag Ofcom cyn paratoi ei Gynllun SoPP os yw'n cynnig gwneud newid sylweddol i unrhyw wasanaeth perthnasol y mae'n ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith ac ystyried ein safbwyntiau.[39] Mae '*newid sylweddol*' bellach yn cael ei ddiffinio fel newid a fyddai'n golygu bod y sianel neu'r gwasanaeth perthnasol "*yn sylweddol wahanol o ran cymeriad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol*"[40], a gall gynnwys newid graddol dros hyd at dair blynedd. Dylai'r PSBs trwyddedig ystyried canllawiau Ofcom wrth benderfynu a yw newid yn newid sylweddol.

3.18 Mae ein canllawiau drafft[41] yn mynd i'r afael â pha bryd y gallai newid sylweddol godi. Rydym yn annog ymgysylltu cynnar os yw PSB trwyddedig yn cynnig gwneud newid sylweddol i unrhyw un o'r gwasanaethau perthnasol y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith ac yn cynnig[42] ffactorau y gallwn eu hystyried wrth wneud sylwadau ar gynnig o'r fath.

## Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

3.19 Mae Adran 11 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn gosod dyletswydd ar Ofcom i annog eraill i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Yn unol â'r ddyletswydd honno, rydym yn cynnig[43] bod y PSB trwyddedig yn gallu darparu gwybodaeth i ni yn eu Cynlluniau SoPP am unrhyw gynlluniau a gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sydd ganddynt, yn enwedig mewn perthynas â lliniaru camwybodaeth a thwyllwybodaeth. Rydym wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai PSBs trwyddedig ystyried canllawiau perthnasol Ofcom a chyfeirio at ein strategaeth ddiweddaraf ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydym hefyd wedi darparu rhai enghreifftiau o'r math o wybodaeth y gallai'r PSB trwyddedig ei chynnwys yn ei SoPP mewn perthynas â'i waith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

## Gofynion adrodd eraill: Cwotâu, comisiynu a threfniadau rhwydweithio Channel 3

3.20 Mae'n rhaid i'r PSB trwyddedig hefyd gynnwys yn eu Cynlluniau SoPP eu cynigion ar gyfer sut byddant yn cydymffurfio â gofynion cwota, eu rhwymedigaethau mewn perthynas â chomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol[44], ac i drwyddedeion Channel 3 amlinellu eu trefniadau rhwydweithio. Mae ein canllawiau drafft hefyd yn ymdrin â'r rhwymedigaethau hyn.[45]

# Canllawiau ar Adolygiadau SoPP

3.21 Adran Adolygu SoPP yw ble mae PSB trwyddedig yn dangos sut mae wedi perfformio yn erbyn Cynllun SoPP y flwyddyn flaenorol. Rydym yn cynnig[46] canllawiau ar sut mae PSBs

[39] Adran 267(2) y Ddeddf.
[40] Adran 267(4) y Ddeddf.
[41] 2.51-53 ein canllawiau drafft.
[42] 2.54 ein canllawiau drafft.
[43] 2.55-57 ein canllawiau drafft.
[44] Rydym yn ymgynghori ar wahân ar newidiadau i'n canllawiau Codau Ymarfer Comisiynu, sydd ar gael yma.
[45] 2.58-63 ein canllawiau drafft.
[46] 2.64-66 ein canllawiau drafft.

trwyddedig yn mynd i'r afael â'u Hadolygiad SoPP, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.[47] Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar agweddau ansoddol a meintiol yr Adolygiad SoPP.

3.22 Rydym yn cynnig[48] y gall PSBs trwyddedig gynnwys gwybodaeth ychwanegol y maent yn ystyried sy'n briodol, gan ein bod yn cydnabod y gallai gwahanol PSBs gael mynediad at wahanol fathau o ddata mewnol, neu ymchwil a gomisiynir yn allanol. Er mwyn osgoi dyblygu diangen, rydym yn cynnig bod PSBs trwyddedig hefyd yn gallu croesgyfeirio at ddata sydd eisoes wedi cael ei ddarparu i Ofcom fel rhan o agweddau eraill ar y fframwaith rheoleiddio PSBs, fel eu datganiadau blynyddol.

3.23 Rydym yn cydnabod[49] y gall PSBs trwyddedig ddewis peidio â darparu gwybodaeth benodol fel ffigurau targed y gynulleidfa yn eu Cynllun SoPP am resymau masnachol, ond rydym yn eu hannog i gynnwys data gwirioneddol ar ffigurau cynulleidfaoedd yn yr Adolygiad SoPP.

## Gofynion cyhoeddi

3.24 Mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig gyhoeddi SoPP bob blwyddyn a chyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gorffen ei baratoi.

3.25 Fel rhan o'n hymgysylltiad rhanddeiliaid â PSBs trwyddedig, rydym wedi ceisio deall sut mae eu cylchoedd adrodd yn gweithio ar hyn o bryd er mwyn hysbysu ein ffordd o feddwl am ba gyfnod y dylai SoPPs eu cwmpasu. Fel arfer, mae SoPPs wedi cwmpasu blynyddoedd calendr. Rydym yn dal i ffafrio hynny, i gyd-fynd ag arferion presennol a sicrhau cysondeb ar draws y PSBs trwyddedig.

3.26 Ein canllawiau presennol yw bod PSBs trwyddedig yn cynhyrchu'r Cynllun SoPP a'r Adolygiad SoPP fel dwy ddogfen ar wahân, a gyhoeddir ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at gyhoeddi Cynlluniau SoPP fisoedd lawer i mewn i'r flwyddyn y maent yn gysylltiedig â hi. Os cyhoeddir Cynlluniau SoPP cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi, byddai hyn yn atal cyhoeddi Adolygiadau SoPP ar yr un pryd, gan na fyddai'n caniatáu amser i sicrhau ansawdd data ac ni fyddai rhywfaint o ddata ar gael.

3.27 Yn unol â'r gofyniad statudol y dylid cyhoeddi Cynlluniau SoPP ar gyfer y flwyddyn ganlynol, rydym yn cynnig[50] y dylai'r PSBs trwyddedig gyhoeddi eu Cynllun SoPP ac Adolygiad SoPP fel dogfennau ar wahân ac ar ddyddiadau ar wahân. Bydd gwahanu terfynau amser yn sicrhau bod:

a) Cynlluniau SoPP PSBs yn cael eu cyhoeddi cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi, yn unol â'r fframwaith statudol; ac
b) y cyhoeddir yr Adolygiad SoPP ar ôl diwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi, gan alluogi i wybodaeth berthnasol gael ei chasglu, ei dadansoddi a'i sicrhau o ran ansawdd. Rydym yn cynnig y gellir cyhoeddi Adolygiadau SoPP hyd at chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn y maent yn ei chwmpasu.

3.28 Bydd y newid hwn yn golygu y bydd y PSBs trwyddedig yn cyhoeddi'r ddwy ddogfen nifer o fisoedd ar wahân o bosibl. Er enghraifft, byddai Cynllun SoPP ar gyfer 2027 yn cael ei

[47] Adran 266(1)(b) y Ddeddf.
[48] 2.66(a) ein canllawiau drafft.
[49] 2.66(b) ein canllawiau drafft.
[50] 2.68 ein canllawiau drafft.

gyhoeddi cyn 31 Rhagfyr 2026, a byddai'r Adolygiad SoPP ar gyfer 2026 yn cael ei gyhoeddi cyn 30 Mehefin 2027.

3.29 Gan fod yn rhaid i PSBs trwyddedig eisoes gynhyrchu dogfennau ar wahân ar gyfer y Cynllun SoPP ac Adolygiad SoPP, rydym yn disgwyl mai bach iawn fydd unrhyw faich gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. Nid yw'n cynrychioli cynnydd yn y gofynion adrodd statudol ar gyfer SoPP, ond gall ymestyn y cyfnod ar gyfer eu cyflawni. Ar yr un pryd, rydym yn disgwyl i'r cynnig gynyddu defnyddioldeb y dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu.

3.30 Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, rydym yn cynnig[51] bod PSBs trwyddedig yn cyhoeddi eu dogfennau SoPP ar-lein, ac mewn fformat hygyrch.

3.31 Rydym hefyd yn cynnig yn y canllawiau drafft [52]bod gan drwyddedeion Channel 3 yr opsiwn o gynhyrchu Cynlluniau SoPP ac Adolygiadau SoPP cyfun mewn perthynas â dau neu fwy o'u gwasanaethau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu presennol a fabwysiadwyd gan drwyddedeion ITV, er nad yw wedi'i ffurfioli yn y canllawiau ar hyn o bryd. Rydym yn credu bod y cynnig hwn yn gymesur gan y dylai hyn osgoi dyblygu diangen, gan fod pob trwyddedai Channel 3 yn darparu rhaglenni rhwydwaith yn ogystal â'r rhaglenni rhanbarthol maent yn eu darparu'n unigol o dan bob un o'u trwyddedau. Mae ein canllawiau'n datgan, er eglurder, y dylai unrhyw SoPPs cyfun o'r fath nodi'n glir pa wasanaethau Channel 3 y mae'n gysylltiedig â nhw.

# Ein canllawiau drafft ar ddatganiadau cyfun C4C

3.32 Yn yr adran hon, rydym yn nodi manylion ein cynnig i ymgorffori ein canllawiau ar gyfer C4C yn y canllawiau drafft a'r newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys diweddaru ein disgrifiad o gynnwys cyfryngau. Rydym hefyd wedi cynnwys canllawiau newydd ar gyfer C4C ar adrodd ar gomisiynu y tu allan i Loegr, yn unol â'n datganiad adnewyddu trwydded Channel 4. [53]

## Gofyniad i gynhyrchu a chyhoeddi SMCP

3.33 Er mwyn sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd, rydym yn cynnig[54] y gall C4C barhau i gyflawni ei rwymedigaethau i gynhyrchu SoPP a SMCP drwy ddatganiadau cyfun, os yw'n dymuno gwneud hynny. Rydym yn amlinellu'r meysydd y mae'n rhaid i C4C adrodd arnynt yn ogystal â'r materion y mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig (gan gynnwys C4C) adrodd arnynt yn eu SoPPs.

## Canllawiau ar Gynllun Cyfun C4C

3.34 Rydym yn tynnu sylw[55] at y rhannau o gylch gwaith unigol C4C sy'n wahanol i rai'r PSBs trwyddedig eraill, ac y mae'n rhaid i C4C felly eu hystyried wrth amlinellu ei bolisi rhaglenni ar gyfer ei wasanaethau perthnasol. Mae'r dull hwn yn gyson â'n canllawiau presennol ar ddatganiadau cyfun.

[51] 2.69 ein canllawiau drafft.
[52] 2.70 ein canllawiau drafft.
[53] Mae hyn wedi'i nodi ym mharagraff 5.234 ein datganiad ar adnewyddu trwydded Channel 4.
[54] 3.4 ein canllawiau drafft.
[55] 3.6 ein canllawiau drafft.

3.35 Rydym yn cynnig parhau i roi hyblygrwydd i C4C o ran sut mae'n adrodd ar ei bolisi cynnwys cyfryngau yn ei ddatganiadau cyfun.[56] Mae hyn er mwyn cydnabod, oherwydd y gorgyffwrdd rhwng gofynion cylch gwaith a dyletswyddau cynnwys cyfryngau mewn rhai meysydd, y gallai C4C ddymuno integreiddio ei adroddiadau ar ei bolisïau cynnwys cyfryngau a rhaglenni. Mae'r dull hwn yn gyson â'r canllawiau presennol ar ddatganiadau cyfun.

3.36 Rydym hefyd yn nodi'r mathau penodol o gynnwys cyfryngau ar-lein nad ydynt yn rhaglenni, ac felly na ellid eu hintegreiddio ag adroddiadau ar bolisi rhaglenni C4C. Felly, rhaid i C4C adrodd ar bolisi cynnwys cyfryngau C4C sy'n ymwneud â'r mathau hyn o gynnwys cyfryngau ar-lein ar wahân.[57]

3.37 Rydym hefyd yn nodi gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chomisiynu y tu allan i Loegr y mae'n rhaid i C4C ei chynnwys yn ei datganiadau cyfun yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr holl PSBs trwyddedig.[58] Mae'r wybodaeth hon yn adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaethom yn ein datganiad aildrwyddedu yn dilyn ymgynghoriad.[59] Mae geiriad hyn wedi'i newid ychydig o'r geiriad yn y datganiad aildrwyddedu i adlewyrchu'r ffaith y bydd adolygiad C4C o'i berfformiad mewn perthynas â chomisiynu y tu allan i Loegr yn awr yn cael ei gynnwys yn ei Adolygiad Cyfun, yn hytrach na'i Gynllun Cyfun.

## Canllawiau ar Adolygiad Cyfun C4C

3.38 Er cysondeb, rydym yn cynnig[60] bod C4C yn dilyn yr un canllawiau â'r PSBs trwyddedig eraill mewn perthynas â'i Adolygiad Cyfun.

3.39 Er eglurder, mae ein canllawiau drafft yn datgan[61] bod yn rhaid i Adolygiad Cyfun C4C ymdrin â chyflawni'r holl bolisïau sydd wedi'u nodi yn ei Gynllun Blynyddol, gan gynnwys ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau a chomisiynu y tu allan i Lloegr.

## Cyhoeddi datganiadau cyfun C4C

3.40 Rydym yn cynnig[62] bod C4C yn dilyn yr un amserlen â'r PSBs trwyddedig eraill wrth gyhoeddi eu datganiad cyfun. Mae ein canllawiau drafft hefyd yn tynnu sylw at ddyletswydd C4C i ymgynghori â ni drwy gydol y gwaith o baratoi eu SMCP, neu ddatganiadau cyfun.

3.41 Rydym yn nodi yn ein canllawiau drafft, fel rhan o'r broses ymgysylltu rhyngom ni a C4C, y gallwn gytuno ar set o fetrigau ychwanegol gyda nhw i'w cynnwys yn eu datganiad cyfun.[63] Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau presennol sydd gennym ar waith gyda C4C, ond rydym yn cynnig eu cynnwys mewn canllawiau, er mwyn bod yn dryloyw.

---

[56] 3.7-10 ein canllawiau drafft.
[57] 3.8 ein canllawiau drafft.
[58] 3.11 ein canllawiau drafft.
[59] Mae hyn wedi'i nodi ym mharagraff 5.234 ein datganiad ar adnewyddu trwydded Channel 4.
[60] 3.12 ein canllawiau drafft.
[61] 3.13 ein canllawiau drafft.
[62] 3.14 ein canllawiau drafft.
[63] 3.15 ein canllawiau drafft.

## Y camau nesaf

3.42 Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gan randdeiliaid am ein cynigion ac yn gobeithio cael ymgysylltiad pellach gyda phartïon â diddordeb cyn gwneud ein penderfyniadau.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Cwestiwn 1: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ein dull a'n Canllawiau drafft arfaethedig?

Cwestiwn 2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ein hasesiadau effaith sy'n sail i'n cynigion, fel sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2?

### Amserlen gweithredu

3.43 Rydym yn nodi'r camau nesaf dangosol a'r amseroedd gweithredu ar gyfer y cyfnod hyd at 1 Ionawr 2027 i ddangos sut rydym yn disgwyl i'r flwyddyn gyntaf o dan y drefn ddiwygiedig weithio:

a) 25 Mawrth 2025: Dyddiad olaf ar gyfer ymateb i'n hymgynghoriad a'r Canllawiau drafft.
b) Haf 2025: Ofcom yn cyhoeddi datganiad a chanllawiau terfynol, ar ôl dadansoddi ymatebion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
c) Hydref 2025: Ofcom yn cyhoeddi'r amrywiadau angenrheidiol i amodau'r drwydded i adlewyrchu'r Canllawiau terfynol.
d) Erbyn dechrau 2026: Daw'r canllawiau terfynol i rym.
e) Erbyn dechrau 2026: Mae PSBs trwyddedig yn cyhoeddi eu Cynllun SoPP cyntaf sy'n cynnwys eu cynigion ar gyfer 2026.
f) Erbyn 30 Mehefin 2026: Mae PSBs yn cyhoeddi Adolygiadau SoPP ar gyfer blwyddyn galendr 2025. Dim ond i brif sianeli'r PSBs trwyddedig y bydd yr Adolygiadau SoPP yn berthnasol, gan eu bod yn berthnasol i'r flwyddyn olaf cyn i'r trwyddedau gael eu hamrywio i weithredu'r newidiadau i'r Ddeddf Cyfryngau sy'n caniatáu i PSBs trwyddedig ddefnyddio nifer o wasanaethau perthnasol i gyfrannu at y cylch gwaith.
g) Erbyn 31 Rhagfyr 2026: PSBs trwyddedig yn cyhoeddi eu Cynlluniau SoPP ar gyfer 2027.

# A1. Fframwaith cyfreithiol: dyletswyddau perthnasol

A1.1 Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyffredinol, o ran cyflawni ei swyddogaethau, yn benodol i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys y dymuniad i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; anghenion pobl ag anableddau.

A1.2 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.

A1.3 Yn ogystal â dyletswyddau cyffredinol Ofcom, mae'r dyletswyddau statudol canlynol yn berthnasol.

## A1.1 Dyletswydd twf economaidd

A1.4 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried y dymuniad i hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a

b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.[64]

A1.5 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod ysgogwyr twf economaidd yn cynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

## A1.2 Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A1.6 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A1.7 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i ystyried y dymuniad i hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb

[64] Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.

Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â’n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## A1.3 Dyletswydd y Gymraeg

A1.8 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae’r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio[65] Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A1.9 Mae’r Safonau Llunio Polisi Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

[65] Hysbysiad Cydymffurfio Ofcom, a gyhoeddwyd ar 25 Gorffennaf 2016.

# A2. Asesu effaith ein cynigion

## Asesiad effaith

A2.1 Mae Adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.

A2.2 Disgwylir i ni ddiweddaru ein Canllawiau fel rhan o'n gwaith o weithredu'r Ddeddf Cyfryngau. Er nad yw'r gofyniad i'r PSB trwyddedig gynhyrchu SoPPs (ac SMCP yn achos C4C) yn newydd, bydd y newidiadau i'r cylch gwaith a sut y gellir ei gyflawni yn golygu y bydd SoPPs (a'r datganiad cyfunol) yn cynnwys newidiadau i'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn SoPPs, gan gynnwys gofynion cylch gwaith newydd a gwasanaethau clyweledol newydd sy'n cyfrannu at y cylch gwaith.

A2.3 Fel y nodir yn Adran 3 y ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi ystyried baich gweinyddol ein cynigion ar PSBs trwyddedig ac wedi darparu hyblygrwydd lle bo modd yn ein canllawiau drafft ynghylch sut y dylai PSB gydymffurfio â'u rhwymedigaeth i gynhyrchu SoPP ac, yn achos C4C, SMCP. Rydym o'r farn bod ein cynigion yn gymesur ac, yn benodol, nad ydynt yn mynd ymhellach na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn i'r PSBs trwyddedig gyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddio ac i Ofcom gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio.

A2.4 Yn benodol, rydym yn cynnig y gallai'r PSBs trwyddedig groesgyfeirio at ddata sydd eisoes wedi'i ddarparu i ni, er mwyn osgoi dyblygu, ac i leihau'r baich gweinyddol o ddarparu gwybodaeth yn eu SoPPs y maent eisoes yn adrodd arni, neu'n ei darparu i Ofcom, drwy ddulliau eraill.[66] Ar ben hynny, mae ein cynigion yn caniatáu i PSBs trwyddedig nodi ble mae gan wasanaethau perthnasol bolisïau rhaglenni a rennir, er mwyn osgoi dyblygu diangen yn eu SoPPs.[67] Mae ein cynigion hefyd yn rhoi hyblygrwydd penodol i C4C, gan ganiatáu iddo gynhyrchu datganiadau cyfun, er mwyn osgoi'r baich gweinyddol o gynhyrchu dogfennau ar wahân ar gyfer SoPP a SMCP.[68]

A2.5 Bydd ein cynigion gyhoeddi'r Cynllun SoPP a'r Adolygiad SoPP ar ddau ddyddiad gwahanol yn y flwyddyn yn sicrhau defnyddioldeb y dogfennau. Dylai'r newid hwn i'n canllawiau roi baich gweinyddol bach iawn ar y PSBs trwyddedig, o ystyried bod y canllawiau presennol eisoes yn mynnu bod dwy ddogfen ar wahân yn cael eu cyhoeddi, er bod hynny ar yr un pryd yn flynyddol.[69]

[66] Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 y ddogfen hon.
[67] Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.10 y ddogfen hon.
[68] Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.33 y ddogfen hon.
[69] Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.29 y ddogfen hon.

## Asesu’r effaith ar gydraddoldeb

A2.6 Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd y cynigion yn y ddogfen hon yn cael effaith benodol ar bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o’r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Mae’r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â’n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

A2.7 Rydym o'r farn bod rhai o’r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar rai grwpiau penodol - yn benodol grwpiau â gofynion o safbwynt mynediad. Y rheswm am hyn yw ein bod yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau SoPP fod mewn fformat hygyrch a’u bod yn cael eu cyhoeddi ar ran hygyrch o wefan y PSB trwyddedig. Rydym o'r farn bod ein cynigion eraill yn debygol o gael effaith niwtral yng nghyswllt pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig eraill.

## Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

A2.8 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae’n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau’r Gymraeg.[70] Yn unol â hynny, rydym wedi'i ystyried:

a) effaith bosibl ein cynigion polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a
b) effaith bosibl ein cynigion polisi ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a sut y gellid llunio ein cynigion er mwyn creu, neu gynyddu, effaith gadarnhaol; neu i beidio â chreu effeithiau niweidiol neu i leihau unrhyw effeithiau niweidiol.

A2.9 Mae pwerau a dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â gweithredu Rhan 1 y Ddeddf Cyfryngau wedi’u cynnwys yn y Ddeddf Cyfryngau ac yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a rhaid eu harfer yn unol â’n dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Wrth lunio ein cynigion ar gyfer y canllawiau diwygiedig ar SoPP a SMCP, lle bo hynny’n berthnasol ac i’r graddau y mae gennym ddisgresiwn i wneud hynny wrth arfer ein swyddogaethau, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Er enghraifft, mae ein canllawiau arfaethedig yn datgan y gall dogfennau SoPP gael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg gan y PSBs trwyddedig hynny sy’n bresennol yng Nghymru. I’r perwyl hwn, rydym o’r farn y bydd ein cynigion yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

[70] Mae safonau’r Gymraeg y mae’n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 25 Mawrth 2025.

A3.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/consultation-statement-of-programme-policy-and-statement-of-media-content-policy-guidance/. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at mediaact.part1a@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Tîm Polisi Cynnwys
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

> anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu

> gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A3.8 Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i'ch ymateb esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A3.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm drwy anfon neges e-bost i mediaact.part1a@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A3.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A3.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.13 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A3.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2025.

A3.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.

A3.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn croesawu syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom

Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydyn ni'n cynnal ein hymgynghoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y

byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)